

CYMUNEDOL

1. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. Codi ymwybyddiaeth am faterion bioamrywiaeth lleol ac am Natur Gwynedd ymhlith trigolion lleol ac ymwelwyr i Wynedd.
2. Cael trigolion lleol ac ymwelwyr i fod yn rhan o ddatblygiad Natur Gwynedd

2. CAMAU ARFAETHEDIG

| Côd | Camau | Partner(iaid) ¹ |
|-----|--|----------------------------------|
| 1 | Ystyried ffurfio gweithgor Addysgu, Codi Ymwybyddiaeth a Chyfranogiad y Gymuned, gyda'r bwriad o hwyluso rhannu gwybodaeth ac adnoddau i godi ymwybyddiaeth o Natur Gwynedd ac annog gweithredu mewn modd addas. TARGED/AMSERLEN: Trefnu'r cyfrfod cyntaf yn 2005, | CG |
| 2 | Cynhyrchu fersiynau gloyw o gynlluniau gweithredu cynefinoedd a rhywogaethau, yn cynnwys gwybodaeth gefndirol ar rywogaethau a chynefinoedd. Hanes lleol /chwedloniaeth a syniadau ymarferol ar gyfer ennyn diddordeb y cyhoedd. TARGED/AMSERLEN: 10/ flwyddyn/ cyfredol | CG, CBNGG |
| 3 | Cynnig sgysrsiau ar faterion bioamrywiaeth a syniadau ymarferol ar gyfer ennyn diddordeb grwpiau lleol. TARGED/AMSERLEN: cyfredol | CG, GCG, CCGC, CGB, YMGC |
| 4 | Datblygu tudalen "Beth Sy'n Digwydd" ar y wê a'i diwedaru'n gyson gyda manylion am brosiectau cadwraeth lleol, cyfarfodydd hyfforddi ayyb, ac annog gwirfoddolwyr i gymryd rhan TARGED: Datblygu tudalen wê fel rhan o dudalennau gwe bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd erbyn 2005 | CG, CBNGG |
| 5 | Rhoi cyhoeddusrwydd i warchodfeudd natur lleol trwy wefan Cyngor Gwynedd fel rhan o'r Rhestr Digwyddiadau cyffredinol TARGED/AMSERLEN: cyfredol | CG |
| 6 | Archwilio'r posibilrwydd o gynnwys Tudalen Digwyddiadau mewn papur wythnosol / misol lleol . Byddai hyn yn rhoi cyhoeddusrwydd i brosiectau cadwraeth lleol, cyfarfodydd hyfforddi ayyb ac yn annog gwirfoddolwyr i gymryd rhan. TARGED/AMSERLEN: 2005 | CG |
| 7 | Defnyddio'r cyfryngau er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion bioamrywiaeth lleol, y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a'i weithrediad trwy brosiectau bioamrywiaeth lleol. . TARGED: cynnwys un erthygl / 2 fis mewn papur lleol/ cyfredol | CG |
| 8 | Diweddarau tudalennau gwê bioamrywiaeth Gwynedd yn rheolaidd TARGED/AMSERLEN: cyfredol | CG |
| 9 | Datblygu tudalen wê gyda'r bwriad o hyrwyddo ffynonellau arian ar gyfer prosiectau yn ymwneud â bioamrywiaeth yng Ngwynedd TARGED/AMSERLEN: erbyn 2005 | CG |
| 10 | Mynychu sioeau amaethyddol, ffeiriau gwledig, ffeiriau cynladwyedd ayb gyda arddangosfa Natur Gwynedd a deunydd rhyngweithiol parod os yn bosibl TARGED/AMSERLEN: mynychu cyfarfodydd perthnasol/cyfredol | CG |
| 11 | Hyrwyddo Wythnos Bioamrywiaeth Cymru, Diwrnod Bioamrywiaeth Gwledig a mentrau tebyg ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol yng Ngwynedd bob blwyddyn. TARGED/AMSERLEN: i'w osod / cyfredol | CG, CBNGC, YMGC, CGB, CCGC, CFGA |
| 12 | Gwella / cynnal mynediad i'r anabl mewn gwarchodfeydd natur addas yng Ngwynedd TARGED/AMSERLEN: cyfredol | CG, YBGGC, CFGA |

¹ Dynodir y prif bartner gyda llythrennau "bold" - gweler adran 3.2 am eglurhad o'r byrfodau

CYMUNEDOL

| | | |
|----|--|----|
| 13 | Archwilio prosiect Garddio Bywyd Gwyllt ar gyfer Gwynedd, mewn cydweithrediad â grwpiau Partneriaeth CGB Lleol. TARGED/AMSERLEN: erbyn 2005 | CG |
|----|--|----|

3. PARTNERIAID A CHYFLEOEDD

3.1 Prif arweinydd ar gyfer CGP

Cyngor Gwynedd (CG)

3.2 Partneriaid allweddol

Gwarchod Gloynod Byw (GGB)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Ymwybyddiaeth Morol Gogledd Cymru (YMGG)

Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru (CBNGC)

Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (CFGA)

Gwarchodwyr Cefn Gwlad (GCG)

3.3 Cyfleoedd

Preswylwyr Lleol, ymwelwyr, garddwyr, grwpiau cymunedol

4. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, CGBLI: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol

Fersiwn 1, 2004